# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Hydref 2024

Amser: 09.30 - 11.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14907

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Sian Giddins (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Božo Lugonja (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfodydd rhynglywodraethol arfaethedig - 10 Hydref 2024

## 3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24, a'r Amcangyfrif ar gyfer 2025-26: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023-24, yn ogystal â'r Amcangyfrif ar gyfer 2025-26, gan Michelle Morris Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.2 Cytunodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad gwrandawiad caniatâd sydd wedi'i drefnu ar gyfer 13 Tachwedd mewn perthynas ag achos cyfredol sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymddygiad.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24, a'r Amcangyfrif ar gyfer 2025-26: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft cyn cytuno arno, yn amodol ar fân newidiadau.

## 7 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft cyn cytuno arno, yn amodol ar fân newidiadau.